

## Y gorau a'r gwaethaf o fyd plant ac ieuenctid

Aled Davies sy'n rhannu ei sylwadau o faes Eisteddfod yr Urdd tra'n dathlu doniau ieuenctid Cymru ond ar yr un pryd yn ein hatgoffa o gymhlethdod tyfu i fyny heddiw ynghanol trais, bwlio a throseddau gynnu.

Erbyn hyn mae Eisteddfod yr Urdd yn ei hanterth, a gwelwyd rhannu doniau arbennig ym maes llên a chân, dawns a cherdd o lwyfannau'r wyl. Ar ôl colli dwy flynedd o steddfota a chrwydro'r maes, diolch am gael dathlu unwaith eto fwrllwm ieuenctid ein gwlad.

Dechreuwyd yr wythnos gydag oedfa arbennig yng Nghapel Mawr Dinbych, o dan arweiniad plant ac ieuenctid y sir. Cafwyd oedfa fendithiol, wrth i ni gael ein tywys ar daith gan mlynedd o gyhoeddi a rhannu neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd, ers y neges gyntaf honno gan y Parch. Gwilym Davies yn 1922. Mewn darlenniadau, gweddïau, caneuon a deialog, fe'n heriwyd i feddwl am le heddwch yn y byd, ac am y neges flynyddol hon gan ieuenctid Cymru.

Yn y prawn braf oedd bod mewn oedfa deuluol wedi ei threfnu gan y Parchedigion Andras Iago a Rhodri Glyn, wrth iddynt groesawu teuluoedd i'r ardal. Gyda dros ugain o blant ifanc yn bresennol, eto roeddem yn gwerthfawrogi bwrllwm a chwilfrydedd y criw hwnnw.

Ar faes y brifwyl mae stondin eang o dan ofal Cytûn, Cyngor yr Ysgolion Sul a Chymorth Cristnogol, gyda chroeso i blant ac oedolion droi i mewn i brofi o letygarwch a gweithgarwch y stondin. Bu ysgolion Sul y fro yn brysur yn paratoi gweithiau celf i'w harddangos, ac yn ystod yr wythnos mae cyfle iddynt eto gyfrannu at broiect celf gan Gymorth Cristnogol a fydd yn cael ei arddangos yn y Gadeirlan ym Mangor maes o law. Bob dydd am 11 o'r gloch o fewn y stondin cynhelir gwasanaeth byr, gan offrymu gweddi heddwch dros drigolion Wcráin a darllen neges Ewyllys Da eleni, sy'n sôn am heriau a phwysigrwydd newid hinsawdd.

Ond, yn anffodus, rhan o'r pictiwr yw'r uchod, a'r realiti yw y gwelir enghreifftiau o drais a chasineb ochr yn ochr â hyn o fewn ein byd. Yn ystod yr wythnos a aeth heibio gwelwyd Raheem Bailey, hogyn ifanc 11 oed o Abertyleri yn colli ei fys wrth ffoi o afael bwllis ar sail camdriniaeth hiliol – a'r plant hynny'n gyfoedion iddo yn yr ysgol. Dywed yr Athro Iwobi o Gyngor Hiliaeth Cymru fod hyn yn rhywbeth hollol gyffredin ac yn ffordd o fyw i lawer o blant o dras ethnig, a hawdd iawn fyddai i'r bachgen yma fod wedi colli ei fywyd.

Daeth y newyddion erchyll hefyd am 19 o blant yn cael eu saethu'n farw mewn ystafell ddoarbarth yn Texas, a hynny gan Salvador Ramos, disgybl 18 oed yn ysgol Uwchradd Uvalde yn y dre.



Cyflwynwn ein gweddïau dros y teuluoedd hynny yn eu galar yn dilyn digwyddiad mor ofnadwy. Er bod hwn yn ddiwyddiad unigryw o ran nifer y marwolaethau mewn un digwyddiad, yn anffodus mae nifer y bobl ifanc dan 25 oed sy'n berchen ar wn yn codi'n flynyddol, ac yn 2019 fe fu iddynt eu defnyddio i ladd cyfanswm o 4,200 o blant ledled y wlad. Eto, mae America yn gyndyn iawn i dynhau rheolau perchnogaeth arfau. Hyd nes y gwneir hynny, cynyddu mae'n debyg fydd nifer y llofruddiaethau blynyddol.

Y gorau a'r gwaethaf. Daioni a drygioni ar waith yn y byd. Geiriau Paul yn ei Lythyr at y Rhufeiniaid oedd, 'Trecha di ddrygioni â daioni'. Diolch am bob ymdrech a welir yn ein byd i geisio dangos i blant beth yw gwir ddaioni, a sut i osgoi bywyd o ddrygioni. Diolch am neges flynyddol yr Urdd yn annog byw bywyd mewn heddwch, gan osgoi trais. Bydd llawer o drafod a dadlau ar bwy mae'r cyfrifoldeb i wireddu hynny. Ai'r aelwyd gartref neu'r ysgol? Mewn cyfnod a fu, ym mri'r bwrllwm eglwysig, byddai ysgolion Sul wedi bod yn sylfaen gadarn i werthoedd a moeseg, wrth gyflwyno Iesu fel esiampl i'w ddilyn.

Galwad Gwilym Davies yn 1922 oedd ar i ni weddio ar Dduw i ddod â heddwch i'n byd. O gofio am gyflwr bregus ein byd, o hiliaeth Abertyleri i drais gynnu Texas a lladd rhyfelgar yn Wcráin, mae ei gri yn fwy ingol heddiw nag erioed. Gweddiwn ninnau gydag arddeliad, er mwyn gweld holl blant ein byd yn ffynnu ac yn cyrraedd eu llawn potensial mewn bywyd, fel dinasyddion cyflawn, llawn daioni. Gweddiwn ar i Dduw wireddu hynny.



## Sylw o'r seidin

### Gobaith, Hyder a Sicrwydd

Mewn byd sy'n gynyddol ansicr, rydym yn ceisio edrych i'r dyfodol gyda rhyw fesur o obaith, rydym yn ceisio tremio ymlaen i bob yfory gyda hyder yn ein ffydd ac yn Nuw. Ond dydi o ddim mor hawdd â hynny. Dydi'r atebion slic ddim yno, mae gen i ofn, ac y mae unrhyw un sy'n creu'r argraff fod y rheiny ar gael, dim ond inni chwilio amdany'n nhw yn y Gair, mewn perygl o ystumio'r Gair i'w hagenda nhw.

Yn ystod cyfnod fy ngweinidogaeth tua'r Groeslon bu criw fy nghlwb ieuencid drwy gyfnod anodd – cyfnod lle bu amryw o brofedigaethau ymysg eu cyfoedion yn yr ysgol. Roedd beth bynnag yr oeddwn i'n ei gynnig neu'n ei ddweud wrthyn nhw mor annigonol, rywsut. Gadawyd gagendor na ellid ei lenwi yn eu bywydau ifanc a phwll diwaelod o anobaith yn eu profiad. Dyna pryd y sylweddolais mor bwysig oedd gweinidogaeth gwranddo, ac mor bwysig oedd gweinidogaeth cwmni a gweinidogaeth cysur a chydymdeimlad iddynt. Doedd gan y rhain ddim diddordeb mewn 'achubiaeth', na'r 'lawn', na 'thragwyddoldeb' na dim.

Rwy'n cofio cadw seiat gyda nhw a phawb yn eistedd ar lawr y llwyfan o flaen y pulpud yn hen Ffestri Capel Brynrodyn. Roedd rhai ohonynt yn awyddus i wybod sut un oedd y Duw yma oedd wedi cymryd eu ffrindiau yn ifanc fel hyn.

Ac fe'm hatgoffwyd o ddyfyniad gan N. T. Wright, lle mae'n dweud rhywbeth sydd ar yr olwg gyntaf yn ymddangos yn hollol syml, sef ein bod ni yn rhan o ddrama fawr y ddynoliaeth gyda'r Iesu. Ac yntau'n ganolog i'r cyfan. Iesu, cofiwch: nid damcaniaethau amdano, nid diwinyddiaeth, nid athroniaeth nac unrhyw ffilosoffi, ond person o gig a gwaed. Dyma fo'r dyfyniad i chi: 'If you want to know who God is, look at Jesus. If you want to know what it means to be human, look at Jesus. If you want to know what love is, look at Jesus. If you want to know what grief is, look at Jesus. And go on looking until you're not just a spectator, but you're actually part of the drama which has him as the central character.'

Tasg oedd bron yn amhosib oedd argyhoeddi'r criw nad y Duw yr oeddwn i'n pregethu amdano ac yn ei gynnig drwy ddefnyddio Iesu fel esiampl iddynt ei ddilyn oedd wedi cymryd eu ffrindiau yn gynamserol. Ac er nad oedd Duw yn ei ragluniaeth wedi gweld yn dda i'w hiacháu, yr oeddwn am geisio'u hargyhoeddi bod eu ffrindiau annwyl bellach yn ôl yng nghwmni'r Un a'u creodd ac a roddodd fywyd iddynt yn lle cyntaf.

Fel gweinidog, credwn fod yr eglwys yn bodoli ar gyfer dau beth sy'n agos

gysylltiedig â'i gilydd: addoli Duw a gweithio tros sefydlu ei deyrnas yn y byd. Ond dywed N. T. Wright fod yna drydydd pwrpas i eglwys. A dyma fo i chi yn syml: 'The church also exists ... to encourage one another, to build one another up in faith, to pray with and for one another, to learn from one another and teach one another, and to set one another examples to follow, challenges to take up, and urgent tasks to perform. This is all part of what is known loosely as fellowship.'

Trwy gydol fy ngweinidogaeth yn y Groeslon bu'r criw ifanc hyn yn cyfarfod bob nos Sul yn ddi-feth. Rhyfeddod y peth oedd eu bod nhw'n sefyll wrth ddrws y festri ac yn curo cyn bod brêcs y car wedi oeri

wrth imi ddychwelyd o gynnal oedfa nos yn rhywle! Ychydig iawn o'u cwmni a gefais mewn oedfa unrhyw adeg, oni bai eu bod nhw'n dangos diddordeb mewn cymryd rhan efo'i gilydd ar achlysuron arbennig. A bod yn deg, roedd rhai'n mynychu ysgol Sul hyd at ryw oed, ond y Clwb oedd yn denu: y gwmniaeth, y gonestrwydd wrth drafod materion y ffydd, cyfle i addoli yn eu ffordd eu hunain. Dyna'u cyfle i gefnogi ei gilydd, i adeiladu cymeriadau ei gilydd, i gryfhau'r hyn roedden nhw'n ei deall fel 'ffydd' ... a fedrwn i ddim gofyn dim mwy ganddynt. Oedd hynny'n ddigon? Pwy ydw i i ddeud? Fedra i ddim ond gobeithio. Fedra i ddim bod yn sicr, ond MAE Duw yn gwybod!

Jim Clarke

## Gweddî'r Pentecost gan Evan Morgan, Llywydd EBC

### Gweddîwn

O Dduw, ar y Sul arbennig yma, atgoffa ni o arwyddocâd y Pentecost. Rywsut, mae'r Sul yma, O Dduw, wedi mynd yn angof o'n dyddiaduron. Rydyn ni'n paratoi at y Nadolig ac yn ymwybodol iawn o'r Groglith a'r Pasg. Ac wedyn, nid yn fwriadol, rydyn ni'n brysur ar gyfer y Sul yma. Maddau i ni am anghofio a diystyru'r achlysur mor allweddol yma yn ein hanes fel Eglwys ac ym mywyd yr Eglwys heddiw.

Wrth ddarllen o'r newydd, O Dduw, yr hanes, rydyn ni angen yr un hyder heddiw, yr un nerth ac arweiniad eto, yn enwedig ar ôl dwy flynedd o ofn, galar a dryswch. Tyrd, Ysbryd, i'n calonnau a'n meddyliau. Atgyfnertha ein ffydd, ysbrydola ein gwaith, a bydd yn gynhaliath i ni yn awr. Wrth ddiolch iti heddiw am y Pentecost cyntaf, diolchwn fod yr Ysbryd wedi cyffwrdd a siglo'r disgyblion, fel mae'n dal i'w wneud o ganrif i ganrif, yn goleuo dy bobl ym mhob oes.


Gweddîwn fod dy Ysbryd di yn gallu bod yn darian i'r rhai sy'n cael eu herlid ar draws y byd, yn enwedig ym Myanmar a China.

Bydd yn agos at y rhai sy'n digalonni yn dy waith ac eraill sydd mor sigledig a dihyder wrth ddod allan o'r pandemig. Gweddîwn dros nifer sy'n dioddef tlodi a newyn yn wyneb newidiadau yn yr hinsawdd, a helpa ni wrth i ni blannu 'hadau gobaith' eleni.

Mae ein gweddîau yn gyson o hyd gyda phobl Wcraïn yng nghanol peryglon rhyfel a therfysg. Arfoga ni i weithio dros heddwch a chyfiawnder yn y byd.

Bydd yn agos yn awr at bob un sy'n fregus ei iechyd, at eraill sy'n poeni am anwyliad, ac at ein pobl ifanc sy'n sefyll arholiadau yn y cyfnod yma. O Arglwydd, beth bynnag yw ein gofid, gweddîwn y bydd yr Ysbryd yn nerth a chysur i ni. Cofleidia ni i gyd yn dy gariad. Cynorthwya ni i fod yn wrol ac i ddyfalbarhau i gynnal dy fflam di yn ein cymunedau. Defnyddia ni yn awr er mwyn lles dy Deyrnas di ar draws y byd, er mwyn bod yn ddwylo i gyflawni dy waith.

Gofynnwn ein gweddîau i gyd yn enw Iesu Grist, yr Atgyfodiad a'r Bywyd. Amen.



## GLYN NEST

Cartref Gofal y Bedyddwyr, Castellnewydd Emlyn

Gwahoddir ceisiadau am swydd

### RHEOLWR/RHEOLWRAIG CYNORTHWYOL

Pecyn gwybodaeth a ffurflen gais ar gael oddi wrth:

Mrs Bonni Davies, Undeb Bedyddwyr Cymru, Y Llwyfan, Ffordd y Coleg,  
Caerfyrddin, SA31 3EQ  
(0345 222 1514 / 01267 616713)

Dyddiad cau: 30/6/2022

## Sefydlu Emyr Williams yng Ngofalaeth y Gwendraeth



Ar brynhawn Sadwrn hyfryd o wanwyn, daeth Gofalaeth y Gwendraeth a'i ffrindiau ynghyd i ddathlu achlysur llawen sefydlu ein gweinidog newydd, y Parch. Emyr Williams. Diolchwn i flaenoriaid Soar, Pontyberem, am ein croesawu ar y dydd ac am baratoi'r adeilad.

Bu'n broses hir rhwng galw Emyr yn weinidog a chynnal yr oedfa sefydlu, wedi'i llesteirio gan gyfyngiadau a chloeon Covid, ond ar 7 Mai, dan arweiniad Llywydd yr Henaduriaeth, Mr Lloyd Thomas, dyma'r diwrnod mawr yn dod o'r diwedd. Roedd Soar, Pontyberem, yn llawn, a nifer wedi ymuno ar Zoom hefyd.

Roedd cynrychiolaeth o bob un o'r deg eglwys yn yr ofalaeth yn cymryd rhan yn yr oedfa. Yn ogystal â hynny cafwyd darlleniadau gan y Parchedigion Siân Elin Thomas a Catrin Ann, a neges bwrsasol gan y Parchedig Peter Thomas, Aberystwyth. Mynegodd Emyr ei ddiolchgarwch i Siân a Catrin am eu cyfeillgarwch fel cyfoedion yn y Coleg Diwinyddol ac i Peter am ei berswadio i fynd i'r weinidogaeth, ac am fod yn fentor iddo.

Cyflwynwyd Emyr gan ei gyd-aelod yn Tŷ Hen, Mrs Margaret Evans, a Mrs Elinor Nicholson o Ofalaeth Llandeilo a'r Arfordir. Clywsom gan y ddwy pa mor weithgar a ffyddlon oedd Emyr yn y capel cyn mynd yn weinidog ac fel cynorthwydd gweinidogaethol, yn cyflwyno syniadau arloesol i'r ofalaeth honno. Roedd yn amlwg ein bod wedi derbyn trysor yn y person arbennig hwn.

Mae Henaduriaeth Myrddin eisoes wedi gweld ac wedi manteisio ar y brwdfrydedd a'r gwaith caled hwn dros y cyfnod clo pan gynhaliodd Emyr wasanaethau wythnosol dros Zoom, yn ogystal â rhannu defosiynau. Mawr yw ein diolch iddo fel Henaduriaeth am gadw'r Eglwys ar agor yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Bendithiwyd ni hefyd gan bresenoldeb tri o gyn-weinidogion yr ofalaeth: y Parch. Trefor Lewis, y Parchedigion Ifan a Catrin Roberts a'r Parch. Nick Bee. Cymerwyd y cyfle i ddiolch i'r Parch. Nick Bee am ei wasanaeth yn yr ofalaeth, am na fu cyfle yn ystod y cyfnod clo.

Yn ei gair ar ran yr ofalaeth, gorffennodd Miss Heulwen Ebeneser gyda'r cyfarchiad: 'Shalom – tangnefedd Duw fo gyda chi'. A dyma ein gweddïau dros ein gweinidog newydd a'r ofalaeth, fod tangnefedd Duw arnom fel deg eglwys a'n Bugail wrth i ni gamu mlaen i'r cyfnod newydd hwn yn ein hanes.

Ar ôl yr oedfa fendithiol, parhaodd y gymdeithas wrth i ni fwynhau te a lluniaeth, a gallu sgwrsio gyda hen ffrindiau ar ôl amser mor hir.

Gweddïwn dros Emyr, Eleri, Dafydd a Sion, a dymuno pob bendith iddynt yn yr ofalaeth.

*Joanna Thomas-Wright*



Emyr, Eleri, Dafydd a Sion



Peter Thomas yn traddodi ei neges



Y rhai gymerodd ran yn yr oedfa sefydlu



## Taith Llywydd y Gymanfa Gyffredinol

Ddydd Sul, 15 Mai, tro Henaduriaeth Conwy a Dyfrdwy oedd croesawu'r Parchedig Evan Morgan ac ymuno i gerdded 5 km gydag ef. Cawsom oedfa arbennig yn Hebron, Hen Golwyn, gyda phregeth rymus a chyfoes gan y Llywydd, a'r Parchedig Helen Wyn Jones, gweinidog Hebron, Mr Huw Pritchard, Mrs Bethan Trenchard, swyddogion yr Henaduriaeth, a Mrs Nerys Cossey yn cymryd rhan. Ymunodd aelodau'r ofalaeth ac eglwysi'r Henaduriaeth yn y gwasanaeth. Yna, cerddodd dros 30 o aelodau a phlant gyda'r Llywydd ar hyd y promenâd ym Mae Colwyn. Yn dilyn hynny, dychwelwyd yn ôl i Hebron i fwyta ein cinio.

# Sasiwn Genhadol Chwiorydd y De, 19 Mai 2022

“Clod i Dduw! Clod i Dduw! Clywed daear ei lef!  
Clod i Dduw! Clod i Dduw! Llawnhaed tyrfa gref!”

Dyma oedd y teimlad hyfryd yn y Gopa, Pontarddulais! Pan gododd y gynulleidfa i ganu, teimlwyd gwefr a phresenoldeb yr Arglwydd yn ein plith. Mor hyfryd oedd gweld ein gilydd wyneb yn wyneb, unwaith eto, ar ddiwrnod braf o haf, ar ôl amser hir.

Llywydd oedfa'r prynhawn oedd Miss Annie Derrick. Addfwyn a threfnus oedd ei harweiniad i ni ganolbwyntio ar yr Arglwydd, oedd wedi gweithio ar ein rhan yn barod, wrth ddod â'r Barchedig Nan Powell-Davies atom ar fyr rybudd! Roedd yn fraith arbennig i ni gael ein darpar Ysgrifennydd Cyffredinol i'n hysbrydoli ni.



Mae Ysgol Uwchradd Tebellong wedi gofyn am nawdd i godi adeilad newydd fel dosbarth gwyddoniaeth a thechnoleg. Adeiladwyd y dosbarth eleni i'r ysgol a hefyd fel y bydd y gymuned leol yn gallu defnyddio rhan ohono fel llyfrgell gyfrifiadurol gymunedol.

Tra mae hyn ar y gweill, mae dosbarth cyfrifiadurol teithiol yn ymweld â'r chwe ysgol gynradd yn yr ardal – a thai cyfagos os nad yw cyfleusterau'r ysgol yn addas. Mae tîm adeiladu bach yn gwella ystafelloedd yr ysgolion fel bod y lloiau a'r waliau yn sownd ac nad oes llwch yn amharu ar y gliniaduron.

Diolch i gronfa Cymru Affrica Llywodraeth Cymru am noddi'r 12 gliniadur teithiol!



Cymerodd Nan fel testun ein thema newydd, “Gobaith yn Iesu: yr Alfa a'r Omega, y dechrau a'r diwedd”. Pan ddaw'r Omega bydd popeth yn newid, ac felly dylen ni ofyn am weledigaeth newydd a chymryd o ddifri ein cyfrifoldeb am newid hinsawdd, am hau “Hadau Gobaith” a chefnogi gwaith fel mae Dr Graham Thomas yn ei wneud yn Lesotho.

Mrs Sarah Morris a gyflwynodd y llyfrau ar y thema newydd a ddosbarthwyd yn ystod amser te. Fel arfer, roedd gwledd wedi'i pharatoi i ni! Roedd pawb mor ddiolchgar am y croeso twymgalon a gawsom ni yn y Gopa.

Llywyddwyd gwasanaeth yr hwyr gan Mrs Margaret Jones, Port Talbot, yn ei ffordd hwylus ac unigryw. Trosglwyddwyd ni i Lesotho gan y Dr Graham Thomas, trwy ei ddefnydd o luniau ar sgrin. Wrth glywed am y sefyllfa druenus yno, ar ôl effeithiau TB, HIV, pla, diffyg maeth, COVID a thywydd difrifol, roedden ni i gyd eisiau helpu, mewn unrhyw ffordd, ein brodyr a'n chwiorydd yng Nghrist yn Lesotho.

Gwahoddwyd ni i sasiwn y flwyddyn nesaf, a gaiff ei chynnal yng Nghapel y Morfa, Aberystwyth, gan Mrs Lola Alban.

Roedd Duw a'r haul wedi gwenu arnom drwy'r dydd!

“O dewch at yr Iesu, ein Harglwydd a'n Duw,  
rhowch iddo'r gogoniant, drwy'r Iesu cawn fyw.”

*Bethan Richards*



Mae'r cerbyd yn cludo nwyddau i Ysbyty Cenhadol Tebellong. Wrth rydio afon Senqu (Orange), mae'n treiddio i ucheldiroedd Lesotho – y Deyrnas yn yr Awyr. Mae'r ysbyty'n cyflogi tua 100 o staff ar gyfer 60 o gleifion ond yn darparu gofal iechyd i gleifion ardal eang, fynyddig a chyfres o glinigau gwledig ar gyfer poblogaeth o tua 20,000.

Diolch i Gronfa Genhadol Chwiorydd Eglwys Bresbyteraidd Cymru am helpu i noddi'r gwaith amrywiol hirdymor yma.

*Lluniau a chapsiwn gan Dr Graham Thomas*

## Rhyfel Wcráin – y diweddaraf gan Fedyddwyr Wcráin a'r gwledydd cyfagos

Prin fod modd inni amgyffred sefyllfa trigolion sydd ynghanol dioddefaint rhyfel, fel y cawsom ddealltwriaeth o ddiodeffaint Wcráin dros y misoedd diwethaf. Mae'r gohebwy newyddion wedi cyflawni gorchest eithriadol yn dwyn y sefyllfa arswydus i'n sylw, ac mae'n braf nodi fod ymateb trigolion gwledydd Prydain wedi bod mor rhyfeddol o hael. Prin fod modd deall agwedd llywodraeth San Steffan tuag at ffoaduriaid o Syria a gwledydd eraill o'i chymharu â pharodrwydd pobl Prydain i ddangos cariad a chefnogaeth i drigolion Wcráin.

Wrth ddarlenn gwefan Undeb Bedyddwyr Ewrop (EBF), cawn ddarlun o drugaredd real ar waith, nid yn unig o haelioni eglwysi Bedyddiedig Ewrop, ond y darlun ehangach o'r Eglwys Gristnogol ym Mhrydain. Fe wnaeth pobl Ewrop yn gyffredinol ymateb yn eithriadol i'r angen amlwg. Pwy ohonom fyddai'n dychmygu'r môr o gefnogaeth i'r Wcraniaid, yn filwrol ac yn ariannol, fel ein bod yn clywed rhai o gyn-arweinwyr milwrol Rwsia yn rhyddhau datganiadau'n ddiweddar, gan gydnabod bod Rwsia wedi ei hynysu.

Dywedir bod 7,814 o ddiodeffwyr nad ydynt yn filwyr wedi eu niweidio yn Wcráin a bod 3,752 wedi eu lladd. Mae'n debygol iawn fod y niferoedd cywir yn uwch o lawer. Dywed y Cenhedloedd Unedig fod 6.2 miliwn wedi ffoi o'r wlad, a bod 3.3 miliwn yng Ngwlad Pwyl, 924,00 yn Rwmania, 610,000 yn Hwngari a 464,000 yn Moldova. Mae'r niferoedd sy'n ffoaduriaid yng ngweddill gwledydd Ewrop yn uchel hefyd, gan dderbyn fod y mwyafrif ohonynt am aros mor agos ag sy'n bosibl i Wcráin, lle mae'r ffordd o fyw a'r iaith yn fwy cyfarwydd iddynt.

Deallwn fod gan Fedyddwyr Wcráin ganolfan weithredu yn Lyvy a bod 320 o gerbydau'n dosbarthu bwyd, meddyginiaeth a nwyddau angenrheidiol ar draws y wlad enfawr hon. Mae'n anodd i ni ddychmygu ardal oedd Donetsk a Luhansk yn parhau i ddiodeff bomio arswydus ac nad oes gan ddinas Lyschansk ddŵr na thrydan. Ar Sul y Pasg eleni, adroddwyd bod nifer sylweddol wedi bod mewn oedfaon y Pasg yn Wcráin, a bod 25 o bobl wedi cyflwyno'u bywydau i Grist ar y dydd hwn. Nifer fechan o'i gymharu â holl boblogaeth Wcráin, mae'n wir, ond tystiolaeth bod y

neges Gristnogol yn apelio mewn ffordd berthnasol i ddiodeffwyr y wlad. Bydd eglwysi'n parhau i fyw fel eglwysi, ac mae Eglwys Feiblaidd Ircin yn cydlynu 70 o wirfoddolwyr sy'n adfer tai ac yn dosbarthu bwyd a dillad drwy'r amser. Yn wyneb erchyllterau Wcráin, mae'r eglwysi'n plethu cenhadaeth ysbrydol â gofal materol, a gallwn ddathlu Duw ar waith yng nghanol rhyfel.

Ceir ymateb tebyg ymhlith Bedyddwyr y gwledydd cyfagos hefyd. Nodir bod eglwysi Bedyddiedig yn Slovakia wedi gweld eglwysi newydd yn cael eu sefydlu a'u bod yn rhannu Beiblau, yn dosbarthu nwyddau ac yn agor ysgolion meithrin, heb anghofio darparu anheddau, gofal meddygol a derbyn plant Wcráin i'w hysgolion. Ceir hanes tebyg mewn gwledydd eraill sy'n ffinio ag Wcráin, megis Rwmania a Rwsia, a phwyslais gweddigar Ffederasiwn Bedyddwyr Ewrop yw y dylid 'dod â'r rhyfel hwn i'w derfyn, ceisio heddwch cyfiawn er mwy ailadeiladu dinasoedd a bywyd yn Wcráin'. Pan fyddwn yn clywed crochleffain anffyddwyr yng Nghymru yn honni eu bod yn byw mewn cyfnod ôl-Gristnogol, neu'n dweud bod Cristnogaeth yn amherthnasol ac yn farw, holed eto. Diolchwn i Dduw am ei waith ym mywydau eglwysi Wcráin yn benodol, a'r gwledydd Ewropeaidd yn gyffredinol.

*Denzil John*

DIWRNOD I'R TEULU CYFAN...

Gweddï, Gŵyl a Hwyl

10-4pm, Mehefin 25, Caerfyrddin  
Tocynnau - £12 y pen, plant am ddim!  
[www.ubc.cymru/cynhadledd-2022](http://www.ubc.cymru/cynhadledd-2022)

Logos for Cymru Y Bedyddwyr Cymdeithas, Cymdeithas Bedyddwyr Cymru, BMS South Wales Baptist Association, and UBC BUW are visible in the top right corner.

# O'r Beibl: 2

## Sut un yw Iesu?

### Darllen: Colosiaid 1:15–20

Ar ddechrau cyfres newydd, rhywbeth pwysig yw atgoffa ein hunain pwy yw Iesu. Wedi'r cyfan, mae ein calonnau'n anghofus ac yn orïog. Gallwn gollu golwg yn rhydd ar sut un yw ein Harglwydd a'n Gwaredwr. Gan mai ei garu a'i fwynhau ef yw pwrpas ein bywydau, mae'n hollbwysig cofio sut un ydyw.

Ysgrifennodd yr Apostol Paul ei lythyr at y Colosiaid i'w hatgoffa pwy yw'r Arglwydd Iesu. Yn Colosiaid 1:15–20, mae'n dweud pedwar peth am Iesu:

### 1. Iesu yw'r Cynrychiolydd

- Yn adnod 15, dywed Paul: 'Hwn yw delw'r Duw anweledig, cyntafanedig yr holl greadigaeth'. Pwrpas 'delw' yw cynrychioli rhywun. Wedi'r cyfan, mae Duw wedi creu'r ddynoliaeth gyfan ar ei 'lun a'i ddelw' (Genesis 1:27) er mwyn iddynt ei gynrychioli ef. Wel, Iesu yw'r ddelw *berffaith*. Fe yw'r un sy'n cynrychioli yn union sut un yw Duw.

Pam mae Iesu'n cynrychioli Duw'n berffaith? Mae'r ateb i'w gael yn adnod 19: 'Oherwydd gwelodd Duw yn dda i'w holl gyflawnder breswyllo ynddo ef'. Mae Iesu'n cynrychioli Duw'r Tad yn berffaith gan mai ef yw Duw'r Mab. Mae holl gyflawnder y Duwdod yn byw ynddo!

Iesu hefyd yw 'cyntafanedig yr holl greadigaeth'. Nid 'cyntafanedig' yn yr ystyr ei fod wedi ei greu'n gyntaf. Mae Iesu – Ail Berson y Drindod – wedi byw gyda'r Tad ers tragwyddoldeb ac nid yw ef wedi cael ei greu. Na, 'cyntafanedig' yn ôl ei *statws* yw'r hyn sydd ar feddwl Paul. Yn y ganrif gyntaf, y mab cyntafanedig oedd y mab blaenaf: fe oedd yr un oedd â'r hawl i etifeddu tir ac eiddo ei dad. Wel, Iesu yw'r 'cyntafanedig' yn y cosmos; fe yw'r un pwysigaf a'r un blaenaf yn y greadigaeth gyfan.



### 2. Iesu yw'r Creawdwr

- Mae adnod 16 yn dweud: 'oherwydd ynddo ef y crëwyd pob peth yn y nefoedd ac ar y ddaear, pethau gweledig a phethau anweledig, gorseddau, arglwyddiaethau, tywysogaethau ac awdurdodau. Trwyddo ef ac er ei fwyn ef y mae pob peth wedi ei greu.' Mewn geiriau eraill, Iesu yw'r Creawdwr. Trwyddo fe, mae Duw'r Tad wedi creu'r cyfan sy'n bod: pob galaeth, pob seren, pob blodyn, pob pysgodyn, pob atom, pob person, pob angel, popeth.

Nid yn unig mae Iesu wedi creu popeth, mae popeth wedi'i greu *er ei fwyn ef*. Hynny yw, mae popeth sy'n bod – gan ein cynnwys ni – yn bodoli gyda'r pwrpas o ddod â chlod i Iesu.

### 3. Iesu yw'r Cynhaliwr

- Mae adnod 17 yn egluro mai Iesu yw'r cynhaliwr: 'Y mae ef yn bod cyn pob peth, ac ynddo ef y mae pob peth yn cydsefyll.'

Iesu yw'r un sy'n cynnal y cosmos. Y rheswm pam mae'r ddaear yn parhau i droi o amgylch yr haul; y rheswm pam mae moleciwlau ein corff yn dal at ei gilydd ydy fod Iesu Grist yn caniatáu i hynny ddigwydd.

### 4. Iesu yw'r Cymodwr

- Yn olaf, mae Iesu'n gymodwr. Gwelwn hyn yn adnod 18 hyd at ddiwedd y darlleniad: 'Ef hefyd yw pen y corff, sef yr eglwys. Ef yw'r dechrau, y cyntafanedig o blith y meirw, i fod ei hun yn gyntaf ym mhob peth ... [t]rwyddo ef, ar ôl gwneud heddwch trwy ei waed ar y groes, i gymodi pob peth ag ef ei hun, y pethau sydd ar y ddaear a'r pethau sydd yn y nefoedd.'

Trwy farw ar y groes mae Iesu'n cymodi pobl ag ef ei hun. Ond pam mae angen inni gael ein cymodi? Wel, mae'r Beibl yn dysgu fod ein pechod a'n gwrthryfel yn golygu ein bod mewn rhyfel yn erbyn Duw. Ond gan fod Duw yn ein caru ni gymaint, bu Iesu farw ar y groes er mwyn talu'r pris am ein pechodau fel bod pawb sy'n credu yn Iesu yn gallu cael maddeuant.

Er bod yr eglwys eisoes yn cydnabod awdurdod Iesu, mae diwrnod yn dod pan fydd Iesu'n sefydlu ei awdurdod dros 'bob peth'. Ar y dydd hwnnw, bydd y greadigaeth gyfan yn cydnabod mai Crist yw'r pen.

Felly, ar ddechrau cyfres newydd, dyma sut un yw Iesu: cynrychiolydd, creawdwr, cynhaliwr a chymodwr. Boed i ni dyfu yn ein cariad a'n mwynhad o'r person rhyfeddol hwn bob dydd.

Gwilym Tudur

### I'w trafod:

- A oes golwg digon uchel gennym ar Iesu? A yw'r adnodau hyn yn ein helpu i'w ddirchafu a'i glodfori?
- Os yw Iesu'n cynrychioli Duw yn berffaith, sut y gallwn ni gynrychioli Iesu orau?
- Pa mor bwysig yw cael pwrpas i'n bywydau a gwybod bod popeth wedi ei greu 'er ei fwyn ef'?
- Os mai Iesu yw'r cyntaf yn y greadigaeth, pa mor flaenllaw yw ei le yn ein bywydau ni ein hunain ac ar ein haelwyd etc.?

S4C

*Dechrau Canu, Dechrau Canmol*  
Sul, 5 Mehefin, am 7.30yh (ailddarlliedir am 11:30yb y Sul canlynol)

Gwirfoddolwyr: clywn hanes un o drychinebau mwyaf arswydus yr RNLI yng Nghymru a chawn gipolwg ar waith gwirfoddolwyr Bad Achub Porth Tywyn.

BBC radio cymru

*Caniadaeth y Cysegr*

Sul, 5 Mehefin, am 7:30yb a 2.00yp

Euros Rhys Evans sy'n trafod pwysigrwydd cyfraniad Ieuan Gwyllt i'n traddodiad emynyddol, wrth i ni ddathlu dau canmlwyddiant ei eni.

*Oedfa Radio Cymru*

Sul, 5 Mehefin, am 12:00yp

Gwasanaeth dan ofal Ifor ap Gwilym, Abergele


## Dirgelwch Duw

'The opacity of God unites them briefly before His clarities again divide.'

Daw'r frawddeg uchod o nofel gan awdur o Dde Affrica, Damon Galgut. Teitl y nofel yw [The Promise](#), enillydd gwobr Booker am 2021, ac mae'r stori'n troi o amgylch teulu cynhennus, rhanedig, sy'n dadlau'n ffyrnig ymysg ei gilydd yn barhaus. Un o'r pynciau llosg sy'n eu gyrru ar wahân yw crefydd, a cheir yn y nofel densiwn rhwng Pabyddiaeth, Eglwys Ddiwygiedig yr Iseldiroedd (Dutch Reformed Church), y mudiad Pentecostaidd, ac Iddewiaeth. Cefndir y frawddeg a ddyfynnir yw angladd teuluol sy'n digwydd mewn eglwys babyddol. Daw'r teulu ynghyd ar achlysur digon trist, ac am ychydig mae'r awyryglch o fewn yr eglwys – y defodau gyda'r delwau, y blodau, y gerddoriaeth, yr aroglarthu a'r ymadroddion Lladin – yn peri iddynt oll blygu'n dawel a chytûn gerbron mawredd a sancteiddrwydd Duw. Ond ar ôl y gwasanaeth mae'r hen raniadau a'r ffraeo'n codi i'r wyneb eto.

Wrth gnoi cil dros eiriau Galgut, daeth i'm meddwl mai dyna hanes Cristnogion ar hyd y canrifoedd. Cyn belled â'n bod yn cydnabod Duw yn ei fawredd, a'i hanfod y tu hwnt i'r meddwl dynol, gallwn blygu'n ostyngedig o'i flaen gyda'n gilydd: 'The opacity of God unites them.' Wedi'r cwbl, sut allwn ni osod ein llinyn mesur ar Dduw, gyda'n meddyliau meidrol? Rhybuddiodd Paul ni mai 'gweld mewn drych yr ydym, a hynny'n aneglur'. Yn Llyfr Emynau'r Methodistiaid (1927), ceir emyn gan Robert Davies, Bardd Nantglyn, sy'n cynnwys y cwpled: 'O flaen dy fainc a'th orsedd di, / gweddi a mawl sy'n gweddu i mi.'

Ond cyn gynted ag yr awn ati i geisio deall Duw, ei ddiffinio a'i ddadansoddi, mae ffydd yn troi'n rhywbeth arall. Rhyfgy ar ein



rhan yw hynny, a dyna sy'n ein gyrru oddi wrth ein gilydd: 'His clarities again divide'.

Gosododd y cyn-Archesgob Richard Holloway ei fys ar y mater pan ddywedodd, 'The opposite of faith is not doubt, but certainty.' Buan iawn yn hanes yr eglwys Gristnogol, yn dilyn cyfnod y Testament Newydd, trodd pendantrwydd yn ddogma, a natur dogma yw gosod ffiniau, a chau allan. Pan luniwyd y credoau cynnar, y bwriad oedd nid yn gymaint gosod i lawr mewn geiriau yr hyn na ellir ei ddiffinio, ond yn hytrach dweud, 'Dyw hyn ddim yn iawn', neu 'All hynny ddim bod yn gywir'. Ond maes o law cafodd y datganiadau hynny eu ffurfioli a'u caledu nes iddynt droi'n foddion i gau allan ac ymrannu.

Yn ei chofiant gwych, diweddar i'r offeiriad a'r bardd Saesneg John Donne, mae [Katherine Rundell](#) yn crynhoi sylwadau Donne mewn pregeth o'i eiddo pan oedd yn Ddeon Eglwys Gadeiriol Sant Paul yn Llundain: 'Division is absurd

and destructive, and very little that is destructive is of God.' Ond o fewn Eglwys Iesu Grist mae canlyniadau'r duedd oesol i ymrannu'n aros gyda ni hyd heddiw.

Sut, felly, y mae inni adnabod Duw o gwbl? Mae'r ateb yn glir yn yr Efengylau, sef trwy Iesu Grist yn unig. Pan ofynnodd Philip i Iesu am gael gweld y Tad, yr ateb a gafodd oedd, 'Y mae'r sawl sydd wedi fy ngweld i wedi gweld y Tad'. Does yna ddim mwy; mae'r cwbl o Dduw yn Iesu. Wrth edrych ar Iesu, gwranddo ar Iesu a chanlyn Iesu y mae i ni adnabod Duw. Am y gweddill, roedd Saunders Lewis yn llygad ei le: 'Mor ddigri yw datganiadau goruchaf ein ffydd'.

Ac yn ei ffordd ddihafal ei hun mae Aled Jones Williams yn ategu hynny:

A ninnau o hyd  
yn petalu'r Distawrwydd  
a mynnu  
mai hwn  
yw'r

Rhosyn.

Na, nid geiriau ond gweithredoedd sy'n newid pethau. 'Nid pawb sy'n dweud wrthyf, "Arglwydd, Arglwydd", fydd yn mynd i mewn i deyrnas nefoedd, ond y sawl sy'n gwneud ewylls fy Nhad, yr hwn sydd yn y nefoedd', medd Iesu. Ar ôl ein rhybuddio mai 'gweld mewn drych yr ydym, a hynny'n aneglur', mae Paul yn datgan mai cariad, uwchlaw popeth arall, sy'n aros.

A throi'n ôl at nofel Galgut, mae yna un cymeriad sydd wedi deall hynny, sef y ferch ieuengaf, Amor. Nid damwain ydyw bod ei henw'n golygu 'cariad', oherwydd mae hi'n troi ei chefn ar gwerylon a rhaniadau'r teulu ac yn ymgolli mewn bywyd o wasanaeth i eraill, o garu a gweini.

Glyn Tudwal Jones  
Caerdydd

## Cyflwyno Beiblau

Braint eglwysi a chapeli Cymraeg Caerfyrddin bob blwyddyn yw cyflwyno Beibl i bob disgybl ym Mlwyddyn 5 yn Ysgol Gynradd Gymraeg y Dderwen. Oherwydd y cyfnod clo, cyflwynwyd copi yr un i Flwyddyn 6 hefyd eleni. Credwn fod hwn yn fuddsoddiad ac yn genhadaeth bwysig yn ein tref. Hir y parhaed yr arfer ardderchog hwn.

Llun: Y Parch. Beti Wyn James yn cyflwyno'r Beiblau ar ran eglwysi a chapeli Cymraeg Caerfyrddin



# Dyma gyfarfod hyfryd iawn

## Pentecost: 'Pan anfoni dy anadl ...'

**Darlleniad** – Salm 104:24–35, neu gellir canu *Salmau Cân* <https://www.bible.com/bible/1364/PSA.104.SCN>

### Gweddi

Arglwydd Dduw, creais't y byd a'r nef a'r cyfan sydd ynndynt pan nad oedd 'dim'. Cysgodaist dros greadigaeth oedd yn 'afluniaidd a gwag' gan ddod â goleuni a bywyd. Creais't i ti dy hun fodd unigryw, hil o bobl i'th ogoneddu. Creais't i ti dy hun eglwys o bob cenedl, hil ac iaith i fod yn blant i ti drwy Iesu Grist, i ogoneddu dy enw. Cyhoeddwn eto heddiw: 'pan anfoni dy anadl, cânt eu creu, ac yr wyt yn adnewyddu wyneb y ddaear'. Pâr i'r un anadl ag a roddodd fod i'r greadigaeth, a'n creodd fel hil, a dywalltwyd allan ar ddydd y Pentecost, ymsymud ar wyneb tryblith a thywyllwch hanes ein hoes gan adnewyddu wyneb y ddaear. Pâr i'th Ysbryd Glân fel 'sŵn nerthol' ymweld â ni drachefn a rhoi i ni'r 'hyder anorchfygol gynt / ddilynai'r tafod tân'.

### Emyn 573 'Tyrd, Ysbryd Glân'

**Darlleniad** – Rhufeiniaid 8:14–17

### Symffoni gras

Y mae'r Llythyr at y Rhufeiniaid fel symffoni gyfoethog ac urddasol, yn ddatganiad, yn amlinelliad o themâu aruthrol gras. Oddi mewn i'r symffoni ceir alawon, is-alawon a motiffau sy'n cael eu seinio'n gynnil cyn iddynt ailymddangos fel ffanffer ysblennydd.

Yn y darlleniad byr yma clywn un o themâu'r symffoni yn dychwelyd ac yn cael ei datblygu. Er bod 'cyfiawnder Duw' yn condemnio pawb yn ddiwahân, y mae 'aberth' Iesu yn ein 'prynu' a'n 'cyfiawnhau' (Rhufeiniaid 3:20–26). Datguddir yn yr Ysgrhythrau, ac yn yr Efengyl, fod Duw yn gyfiawn wrth iddo gyfiawnhau'r 'sawl sy'n meddu ar ffydd yn Iesu' (3:26). Drwy ffydd yn yr Arglwydd, Iesu Grist, crëwyd dynoliaeth newydd. Cawsom 'ffordd' drwy ei ras i brofi ffydd, rhodd anhaeddiannol Duw (Rhufeiniaid 5:1–8). Bu Crist farw drosom pan oeddem yn dal i filwrio yn erbyn Duw. Ond un o ganlyniadau ffydd, neu un o nodweddion dyfodiad ffydd i'n calonnau, yw'r ymwybyddiaeth, neu'r profiad, neu'r 'prawf' o gariad Duw sy'n cael ei 'dywallt yn hael yn ein calonnau drwy'r Ysbryd Glân' (Rhufeiniaid 5:5).

Dychwelyd a wna symffoni gras yn Rhufeiniaid 8 wrth i'r Apostol ddatblygu thema gwaith yr Ysbryd Glân ynom.

### Adnabod ôl ei law

Disgrifia'r adnodau freintiau'r rhai a ddaeth i ffydd yn Iesu ac a brofodd waith yr Ysbryd Glân ynndynt. Nid ysbryd o gaethiwed, nac ofn chwaith, yw'r Ysbryd sy'n ein meddiannu, meddai. Tystia'r Ysbryd Glân, sy'n ein 'harwain' i geisio bywydau glân, i realiti'r berthynas newydd sydd rhyngom a'r Tad. Rhodd yw'r hyn 'yr ydych wedi ei dderbyn'. Tystio i'n *mabwysiad* gan y Tad y mae dyfodiad yr Ysbryd Glân. Nid oeddem gynt mewn perthynas â'r Tad, ac nid oedd gennym unrhyw statws na hawl ger ei fron. Bellach cawsom, drwy ffydd yng Nghrist, ein mabwysiadu a chawsom brofi breintiau mabwysiad. Fel aelod o'r teulu, profwn ei heriau a'i ddiodefiadau. Ond gwyddom hefyd y cawn gyfranogi yng ngogoniant ein Tad. Tystia'r Ysbryd a gartrefodd ynom y cawsom dderbyniad llwyr gan y Tad, trwy Grist. Yr ydym yn blant iddo a chanfyddwn ryfeddod y berthynas pan ddaw awydd digymell bron i lefain ger ei fron: 'Abba! Dad!'

**Gweddi** Abba Dad (*Caneuon Ffydd*, 802)

**Darlleniad** – Actau 2:1–21

### Creadigaeth yr Ysbryd

Nid yw eglwys Iesu Grist yn debyg i unrhyw gymdeithas, neu gymuned ffydd, neu blaid arall ar wyneb y ddaear. Dyma yn wir haerriad a honiad mawr!

Sut gellir dadlau'r fath beth pan mae'n amlwg mai corff daearol, sy'n cynnwys cynulliaidau lleol, o bobl feidrol yw ei haelodau? Onid balchder eithriadol yw honni'r fath beth pan mae'n amlwg y medrwn astudio cymunedau ffydd o bob math, a hynny ym mhob cwr o'r ddaear, a gweld bod yna arferion, defodau, athrawiaethau, credoau yn perthyn i bob un ohonynt y gellir eu hastudio a'u disgrifio'n gymdeithasegol?

Ni fynnem ddadlau na ellir disgrifio nac astudio arferion cymunedau a grwpiau Cristnogol, na gweld bod ynndynt debygrwydd i grwpiau neu grefyddau eraill. Beth sy'n arwyddocaol i ni, fel y gwelsom yn ein darlleniad blaenorol, yw ein hargyhoeddiad ein bod yn meddu ar berthynas ysbrydol, fewnol, unigryw o Dduw yng Nghrist, drwy'r Ysbryd Glân.

### Pentecost

Mae'n amlwg bod Eglwys Iesu Grist wedi credu hyn, hyd yn oed cyn i gyfrolau pwysfawr ar eglwysyddiaeth ddechrau cael eu cyhoeddi!

Deallwyd o'r dydd cyntaf mai 'dod o'r nef' a wnaeth yr Ysbryd Glân. Creadigaeth Duw yw'r Eglwys, ac nid corff a ddaeth i fod drwy bleidlais Cymanfa Gyffredinol nac Undeb ydyw. Yn ei hanfod, rhodd Duw i'r byd wedi ei chreu i ddibenion Duw yw ei Eglwys.

### 'Beth yw ystyr hyn?'

Mae'n amlwg bod y dyrfa oedd wedi casglu yn Jerwsalem ar gyfer yr ŵyl wedi ei rhannu am arwyddocâd yr hyn y cawsant fod yn dystion iddo. I'r dinasyddion sinigaidd, canlyniad meddwod oedd yr hyn a welsant ac a glywsant. Daearol oedd eu bryd a daearol oedd eu dehongliadau (adn. 13).

Clywed rhywbeth gwahanol a wnaeth y 'bobl dduwiol o bob cenedl dan y nef' (adn. 5). Clywed tystiolaeth 'yn ein hieithoedd ni am fawrion weithredoedd Duw' a wnaethant hwy (adn. 11). Pan beidia'r Eglwys â chyhoeddi a thystio i fawrion weithredoedd Duw yng Nghrist, fe beidia â bod yn eglwys! I hynny y cawsom ein galw (Luc 24:44–8).

### Eglurhad – wedi bod, yn bod, i ddod

Wrth gyfarch ei gynulleidfa, mynnai Pedr mai **cyflawniad o addewidion** Duw oedd yr unig esboniad o'r hyn yr oeddynt yn dystion iddo. Nid bendithion a gyfyngwyd i genedl, neu hil, neu iaith oedd dyfodiad yr Ysbryd. Roedd trefn 'newydd' Duw yn gyflawniad o'i addewidion ac yn barhad o'i amcanion i fendithio 'pawb' drwy'r byd. Nid cyflawniad o addewidion ddoe mewn digwyddiad ar ddydd arbennig mewn hanes oedd dyfodiad yr Ysbryd chwaith. Roedd yn dystiolaeth bod 'dyddiau olaf' **wedi dod** i'r byd ac ar waith yn Iesu Grist. Paratoad ydoedd ar gyfer y 'dydd mawr ac ofnadwy' pan fyddai holl fwriadau daionus a chyfiawn Duw **yn cael eu cyflawni** yn derfynol. Oherwydd y sicrwydd y bydd holl amcanion daionus Duw yn dod i ben, derbyniwn wahoddiad ac addewid yng Nghrist. Bydd pob un sy'n ildio'i goron mewn edifeirwch ac 'yn galw' ar enw yr Arglwydd mewn ffydd 'yn cael ei achub' (adn. 21).

### Gweddi

Arglwydd, trugarha wrthym ac anfon dy anadl adnewyddol i'n plith er dy glod. Amen.

### Emyn 593 'Ddiddanydd anfonedig nef'

RWJ

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

[watcyn@cennad.cymru](mailto:watcyn@cennad.cymru) | [hww@cennad.cymru](mailto:hww@cennad.cymru) | [aled@ysgolsul.com](mailto:aled@ysgolsul.com)

[www.cennad.cymru](http://www.cennad.cymru) | [f CennadCymru](https://www.facebook.com/CennadCymru) | [@CennadCymru](https://www.instagram.com/CennadCymru)